



Adroddiad Blynyddol ar Safonau Cymraeg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - O Fedi 2018 - Medi 2019

Cefndir

Mae'r Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus anadrannol Deyrnas Unedig gyfan sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn helpu cymunedau i gyflawni eu huchelgais trwy ddyfarnu grantiau i brosiectau sydd wedi'u harwain gan bobl yn y cymunedau hynny gan eu gwneud yn gryfach ac yn fwy bywiog. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyfarnu £31.3 miliwn yng Nghymru i fwy na 706 o brosiectau. Fe ddechreuom weithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar Ionawr y 31ain 2019, cyn hyn roeddem yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr ers 2004.

Sut rydym wedi cydymffurfio â'n Safonau Cymraeg

Mae'r Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog ac rydym wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ers 25 Ionawr 2017. Cyn hynny gweithredom Gynllun Iaith Gymraeg llwyddiannus iawn.

Mae gweithredu'r Safonau o fewn y mudiad wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn ar ein cyfer gan iddo gryfhau'r gwasanaeth dwyieithog rydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid a deiliaid grant o ddydd i ddydd yn ogystal â galluogi ni i gynnig a darparu gwasanaethau Cymraeg i'n haelodau staff sy'n siarad Cymraeg am y tro cyntaf.

Mae wedi galluogi ein Tîm Cymraeg i gydweithio'n agosach â rhai o'n timau canolog sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, gan gynnwys adnoddau dynol, Caffael a thimau'r rhaglenni ariannu Deyrnas Unedig gyfan. Mae hefyd wedi ein galluogi i weithio'n agosach â mudiadau cyfrwng Cymraeg allanol i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg iddynt a'u cefnogi i wneud defnydd llawn o'r rhain.

Mae'r Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweithredu Safonau o dan gategoriâu Cyflenwi Gwasanaethau, Lluo Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion.

Er mwyn i aelodau'r cyhoedd ddeall yn glir pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cydweithiom â chwmni Ateb yn 2016/2017 i lunio Siarter Iaith/Language Charter, sy'n esbonio mewn termau syml beth mae'r Safonau'n ei olygu i ni fel mudiad, i'n cwsmeriaid ac

i'n staff. Yn dilyn ein ail frandio yn Ionawr 2019, mae ein Siarter laith a dogfennau cefnogol eraill wedi eu diweddarau. Mae ein posteri Siarter laith yn cael eu harddangos yn nerbynfeydd ein dwy swyddfa yng Nghymru felly ei fod yn glir i'n cwsmeriaid bod gwasanaeth dwyieithog ar gael iddyn nhw gennym ni. Mae'r Siarteri hefyd yn cael eu dangos yn ein swyddfeydd yn Birmingham a Llundain.

Mae gennym hefyd fersiynau A5 o'r Siarter rydym yn ei rannu mewn digwyddiadau gyda phrosiectau, ymgeiswyr a budd-ddeiliaid.

Gellir gweld dolenni i'n holl ddogfennau sy'n tynnu sylw at ein gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid yng Nghymru ar dudalen Safonau laith Cymru ar ein gwefan.

Sut rydym wedi sicrhau cydymffurfriad â'n Safonau laith Gymraeg o dan bob pennawd:

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- Rydym bob amser wedi bod yn falch iawn o'r gwasanaeth dwyieithog a gynigiwn i'n cwsmeriaid yng Nghymru. Gall ein hymgeiswyr a deiliaid grant weithio a chyfathrebu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gydol bywyd eu grant os dymunant wneud hynny. Er yr oeddem yn hyderus yn ein Cynllun laith Gymraeg blaenorol, manteisiom ar Safonau'r Gymraeg fel cyfle i wneud gwelliannau os oedd modd. Gwnaethom sicrhau bod derbynfeydd ein dwy swyddfa yn ei gwneud yn glir i gwsmeriaid y gallent gyfathrebu â ni naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Dyma oedd adborth diweddar un o'n cwsmeriaid Cymraeg: "Mae gwasanaeth Gymraeg y Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn wych. Mae'r wefan yn hawdd i'w ddefnyddio ac mae'r safle Gymraeg yr un mor dda â'r Saesneg. Mae hyn yn chwa o awyr iach ar ôl delio â llawer o arianwyr grantiau a sefydliadau mawr eraill nad ydynt yn cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r un safon. Mae gallu trafod prosiect neu gais yn Gymraeg yn golygu y gallaf gyfleu fy mrwdfrydedd dros y cais mewn ffordd well gyda'r swyddogion."
- Rydym wedi gwneud defnydd da o nwyddau laith Gwaith ac rydym yn sicrhau bod gan ein holl aelodau staff sy'n siarad Cymraeg a'r dysgwyr Cymraeg logo laith Gwaith ar eu cardiau busnes a'u llinynnau gwddf. Gan fod ein swyddfa yn y Drenewydd yn cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd a'n bod i gyd wedi cael cardiau adnabod newydd ar gyfer yr adeilad, rydym hefyd wedi sicrhau bod logo laith Gwaith i'w weld ar y rhain.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi lansio ein gwefan newydd, sydd, yn unol â Safonau 48, 51 a 52, ar gael yn llawn yn Gymraeg a Saesneg ac mae'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.
- Ar Ionawr 30ain 2019, lansiwyd ein henw newydd a brand newydd, gan newid ein henw o'r Gronfa Loteri Fawr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol / The National Lottery Community Fund. Mae ein henw, brand a hunaniaeth gyfan wedi cynnal un dwyieithog trwy gydol y newid hwn, yn unol â Safon 79.

- Ar Fedi 3ydd lansiwyd ein ffurflen ar-lein newydd Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Yn arwain at y lansiad, cynhaliom sesiwn profi defnyddwyr gyda staff a chwsmeriaid ar wahân yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau bod y ffurflen yn addas at y diben. Er mwyn sicrhau y byddai ein cwsmeriaid yn hapus gyda'n ffurflen Gymraeg, cynhaliom sesiwn profi defnyddwyr ar yr iaith a ddefnyddir yn y ffurflen Gymraeg i ddechrau, ac yn ddiweddarach gwnaethom wahodd y profwyr i ddychwelyd i wirio'r iaith unwaith eto yn ogystal â phrofi ymarferoldeb y ffurflen ar-lein.
- Am y 3 blynedd diwethaf rydym wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer ein prosiectau a ariennir ar sut i weithio'n ddwyieithog. Rydyn ni wedi cynnal y rhain mewn partneriaeth â tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg ac maen nhw wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Rhwng mis Medi 2018 a mis Mai 2019 cynhaliom 4 sesiwn hyfforddi i gyd mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru. Byddwn yn cynnal 4 sesiwn arall dros y flwyddyn nesaf mewn partneriaeth â'r Tîm Hybu a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- Mae'r tîm Hybu hefyd wedi bod yn ein cefnogi yn ein sesiynau Hyfforddiant Cyfryngau yr ydym yn eu cynnal ar gyfer ein prosiectau a ariennir. Dros y flwyddyn ddiwethaf cynhaliom 3 sesiwn ledled Cymru a mynychodd aelod o dîm Hybu y sesiynau i bwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo eu hunain yn ddwyieithog i brosiectau. Byddent yn parhau i gefnogi'r sesiynau hyn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Rydym yn parhau i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn derbyn y gwasanaeth gorau posib gennym yn Gymraeg a Saesneg.

Safonau Llundio Polisiâu

- I fodloni'r Safonau Llundio Polisiâu rydym wedi cynhyrchu polisi sy'n esbonio'n glir sut y bydd unrhyw waith ymchwil neu ymgynghori'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Rydym wedi datblygu polisi ar ddyfarnu grantiau a'r Gymraeg hefyd, sy'n disgrifio sut y bydd unrhyw ariannu a ddosbarthwn yng Nghymru'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw brosiect a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.
- Yn dilyn sgysiau â swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, byddwn yn drafftio polisi newydd ar yr iaith Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau a chyhoeddi hwn ar ein gwefan dros yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd y polisi newydd yn mynd i fwy o fanylder ar ein disgwyliadau iaith Gymraeg ar brosiectau a ariennir.
- Cysylltwch â ni ar cymorthcymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk os hoffech weld copi o'r polisiâu hyn.

Safonau Gweithredol

- Fel mudiad Deyrnas Unedig gyfan, gyda'r mwyafrif o'n gwasanaethau corfforaethol wedi'u lleoli mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru, mae'r set hyn o Safonau yn parhau i fod y set fwyaf heriol ar ein cyfer fel mudiad. O ganlyniad i hyn, roedd y terfynau amser i fodloni'r Safonau Gweithredol wedi'u stagro dros gyfnod o 18 mis er mwyn i ni gael digon o amser i'w bodloni'n gyflawn ac yn hyderus.
- Er eu bod yn heriol, rydyn ni wedi gwneud cynnydd mawr yn iaith fewnol y mudiad dros y 2 flynedd a hanner ddiwethaf ers i ni ddechrau gweithredu'r Safonau ac mae ein holl Safonau wedi'u cyflawni o fewn yr amserlenni penodol.
- Ein hiaith fewnol cyn mis Ionawr 2017 oedd Saesneg yn bennaf ac mae cyflwyno'r Gymraeg fel iaith fewnol arall wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i lawer o staff, yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r broses wedi galluogi ein Tîm Cymraeg i gydweithio'n agosach â'n timau Adnoddau Dynol a Chaffael a thimau TG, ac mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol i bawb.

O ganlyniad, yn ystod y flwyddyn mae ein llwyddiannau yn cynnwys y canlynol:

- Mae aelodau staff yng Nghymru wedi cwblhau ein hyfforddiant craidd Hanfodion Gweithle yn Gymraeg. Cafodd hwn ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2018;
- Mae gennym dudalen Gymraeg benodedig ar ein mewnrwyd, gyda gwybodaeth yn cael ei hychwanegu yn Gymraeg trwy'r amser;
- Yn ogystal â'n tudalen Gymraeg ar y fewnrwyd, mae'r rhan fwyaf o'n polisïau AD ar gael yn Gymraeg a Saesneg nawr yn ogystal â'n holl Hwb a pholisïau lechyd a Diogelwch.
- Cyhoeddwyd canllaw ar gyfer ein staff sydd â'r teitl 'Ein haddewid i'n staff' sy'n esbonio pa wasanaethau y gall staff eu disgwyl a gofyn amdanynt yn y Gymraeg gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; Dosberthir y canllaw hwn i bob aelod newydd o staff pan fyddant yn cychwyn yn ein swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae cyflwyniad i'n gwasanaeth iaith Gymraeg bob amser wedi bod yn rhan bwysig o'n proses ymgynefino i staff newydd yng Nghymru ac mae'n parhau i fod, ond ers 2018, mae'r Gymraeg bellach yn rhan o'n cyfnod ymgynefino corfforaethol i'r holl staff sy'n ymuno â'r Gronfa ledled y DU . Mae gennym sesiynau ymgynefino bob yn ail fis i staff newydd a gynhelir ar yn ail yn ein swyddfeydd yn Birmingham a Newcastle.
- Mae ein Swyddog Iaith Gymraeg yn anfon diweddariadau a nodiadau atgoffa rheolaidd i staff ar ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg trwy gydol y flwyddyn.
- Pryd bynnag y byddwn yn recriwtio aelodau newydd o staff, gofynnwn yn awr a fyddai'n well gan ymgeiswyr gael eu cyfweld yn Gymraeg trwy gwestiwn ar ein system ymgeisio ar-lein. Wrth recriwtio am ddwy swydd dros y cyfnod adrodd yma, rydym wedi gwahodd 7 i gyfweliad ac mae 3 ohonynt wedi gofyn am gyfweliad yn y Gymraeg.

- Mae gennym weithdrefn sy'n sicrhau y bydd unrhyw systemau ar-lein newydd at ddefnydd staff bellach yn cael eu caffael fel systemau dwyieithog, pryd bynnag y bo'n bosib, gan sicrhau y gall staff ddefnyddio'r systemau hyn yn naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y dyfodol. Er enghraifft, ar hyn o bryd rydym yn caffael ar gyfer system AD ddwyieithog a fydd yn cael ei defnyddio gan yr holl staff ar draws y mudiad.
- Mae gan ein staff i gyd fynediad at hyfforddiant ymwybyddiaeth Cymraeg a hyfforddiant i ddysgu'r Gymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg. Mae ein tîm iaith Gymraeg hefyd yn cynnal hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn bwrpasol ar gyfer timau penodol o fewn y mudiad pan fo angen;
- Rydym wedi diweddarau ein Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn 2018 a byddwn yn parhau i ddiweddarau'r ddogfen hon i sicrhau ei bod yn helpu ni i gynnal ein nifer gofynnol o aelodau staff Cymraeg eu hiaith.
- Mae gennym ganllawiau amrywiol ar gael i'n staff, sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys: Llofnod e-bost, negeseuon e-bost allan o'r swyddfa a manylion cyswllt defnyddiol ar gyfer gwybodaeth ar yr iaith Gymraeg.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd gwych ar ddatblygu ethos mewnol dwyieithog o fewn y mudiad ac rydym yn edrych ymlaen i ddatblygu'r Gymraeg ymhellach yn fewnol o fewn y mudiad dros y flwyddyn nesaf.

Safonau Cadw Cofnodion

I fodloni gofynion y safonau cadw cofnodion, rydym yn cadw copïau o:

- Gwynion rydym yn eu derbyn mewn perthynas â'n cydymffurfiad â'r Safonau
- Nifer y staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn Gymraeg
- Aseidiadau rydym yn eu cynnal mewn perthynas â sgiliau Cymraeg y gall fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu wag a faint o rolau a hysbysebwyd sy'n mynnu sgiliau Cymraeg fel hanfodol neu ddymunol.

Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg

Yng Nghymru (ym mis Medi 2019), mae gan Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ddwy swyddfa, un yng Nghaerdydd ac un yn Y Drenewydd. Mae gennym 49 aelod o staff yng Nghyfarwyddiaeth Cymru ac mae 21 o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg gyda 3 aelod ychwanegol o staff yn dysgu Cymraeg naill ai yn y gwaith neu y tu allan i'r gwaith yn eu cymuned. Mae mwy na hanner y staff yn swyddfa'r Drenewydd yn siaradwyr Cymraeg ac rydym yn falch iawn o'r awyrgylch dwyieithog yn ein dwy swyddfa.

Cynhaliwyd ein harolwg sgiliau ieithyddol diweddaraf ym mis Medi 2019 ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

- Cwblhaodd 26 aelod staff yr holiadur yn Saesneg a 14 yn Gymraeg.
- Mae'r canlyniadau'n dangos bod 14 aelod o staff yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl sydd â sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu rhagorol. Roedd gan 21 aelod o staff sgiliau siarad sylfaenol yn Gymraeg ac roeddent yn

teimlo y gallent naill ai ynganu enwau lleoedd a sefydliadau yn well nag o'r blaen neu'n teimlo y gallent ddilyn sgwrs syml yn Gymraeg.

- Nododd cyfanswm o 20 aelod o staff yr hoffent dderbyn rhywfaint o hyfforddiant gyda 6 yn nodi y byddent yn elwa o hyfforddiant hyder i ddefnyddio eu Cymraeg mewn sgwrs a 5 yn nodi y byddent yn elwa o hyfforddiant i wella eu sgiliau ysgrifenedig. Nododd 9 aelod o staff ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg trwy amryw o arddulliau dysgu. Bydd ein Tîm Iaith Gymraeg yn mynd ar drywydd y ceisiadau am hyfforddiant ac yn trefnu hyfforddiant priodol i staff yn ystod mis Medi/Hydref 2019.

Nifer y staff a fynychodd hyfforddiant yn Gymraeg, os yw ar gael yn Saesneg.

- Nododd ein Safonau y byddai angen darparu dim ond rhywfaint o hyfforddiant yn Gymraeg, petai'n cael ei ddarparu yn Saesneg. Y cyrsiau hyfforddi hyn oedd: recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau cwyno a disgyblu; ymgynefino; delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch. Gwneir ein hyfforddiant lechyd a Diogelwch trwy system ar-lein yn flynyddol ac mae hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r staff ei chwblhau. Fel rheol, arweinir ein cyfnod ymgynefino yn swyddfa Cymru gan reolwr llinell yr aelod staff newydd ond gellir newid hyn yn dibynnu ar ddewis iaith yr unigolyn, felly gellir cynnal ein cyfnod ymgynefino yng Nghymru naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Nid yw'r mwyafrif o'r cyrsiau hyfforddi eraill a enwir yn cael eu cynnig yn Saesneg i'n staff ar hyn o bryd ac felly nid ydynt ar gael yn Gymraeg eto.
- Er hynny, rhan graidd o'r hyfforddiant ar gyfer ein holl staff yw'r Hanfodion Gweithle, y mae'n ofynnol i'r holl staff ei wneud bob blwyddyn. Mae'n adnodd hyfforddiant ar-lein ac yn ymdrin â'r Côt Moeseg, Ymwybyddiaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth, Diogeledd gwybodaeth a thrin data a Diogelu Data. Yn 2019 cwblhaodd 1 aelod o staff o Gyfarwyddiaeth Cymru yr hyfforddiant yn llwyr yn y Gymraeg a chwblhaodd 4 aelod arall o staff yr hyfforddiant yn ddwyieithog. Gan fod hyn yn ostyngiad o'r niferoedd y llynedd, bydd ein tîm Cymraeg yn gweithio gyda'r tîm AD i hyrwyddo'r cwrs Cymraeg ac annog staff i gwblhau'r hyfforddiant yn Gymraeg yn 2020.
- Yn 2018 buom yn gweithio gyda Cwmni Iaith i ddarparu cwrs hyfforddi yn benodol ar gyfer aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yng Nghyfarwyddiaeth Cymru. Diben yr hyfforddiant oedd paratoi ein siaradwyr Cymraeg ar gyfer y newidiadau a fyddai'n dod gyda'r Safonau yn ogystal â darparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd ac wrth gyflwyno. Soniodd yr hyfforddiant hefyd am sut i ddelio â sefyllfaoedd anodd yn y Gymraeg, fel cwynion neu gyfarfodydd disgyblu. Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn ein swyddfa yn Y Drenewydd a roedd mwyafrif o'n aelodau staff Cymraeg eu hiaith yn gallu mynychu.
- Fel mudiad rydym wedi cofrestru i gymryd rhan yng nghynllun Cymraeg Gwaith, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac hyd yma mae 4 aelod o staff

yng Nghymru wedi dechrau'r cyrsiau 10 awr am ddim. Hefyd, llwyddodd un dysgwr Cymraeg da iawn i fynychu cwrs preswyl yn Nant Gwytheyrn trwy gynllun Cymraeg Gwaith. Mae'r aelod staff hwn yn awyddus i fagu hyder wrth ddefnyddio ei sgiliau Cymraeg yn y gwaith yn fwy a bydd yn cysgodi aelodau staff sy'n siarad Cymraeg tra allan mewn digwyddiadau dros y flwyddyn nesaf ac yn mynychu cwrs Cymraeg.

- Yn dilyn ein harchwiliad sgiliau iaith y llynedd lle nododd nifer o aelodau staff sy'n Cymraeg y byddent yn gwerthfawrogi derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith, gwnaethom gomisiynu Cwmni Iaith i gynnal diwrnod hyfforddi pwrpasol yn ein swyddfa yn y Drenewydd lle bodlonwyd yr holl anghenion hyfforddi a nodwyd. Roedd yr hyfforddiant yn werthfawr i'n haelodau staff ac os bydd angen, byddwn yn edrych ar drefnu sesiwn debyg eleni.
- O fis Medi 2019 ymlaen, mae gennym 3 aelod o staff sy'n mynychu cwrs i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg.
- Rydym yn annog ein staff yn barhaus i ddysgu Cymraeg neu o leiaf 'rhoi cynnig' ar ychydig o Gymraeg yn eu bywyd gwaith. Rydym yn anfon 'Gair Cymraeg yr wythnos / Welsh Word of the Week' i holl staff Cymru a rhai yn ein swyddfa yn Birmingham sy'n cynnwys geiriau ar wahanol themâu. Hyd yn hyn, rydym wedi cynnwys geiriau sy'n dechrau gyda llythrennau'r wyddor Gymraeg a fideos o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn dweud enwau sefydliadol y gallai rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg eu cael yn anodd eu ynganu, fel Merched y Wawr/cymdeithas
- Yn ystod Wythnos Dysgu yn y Gwaith treuliodd ein tîm Cymraeg ddiwrnod yn ein swyddfa yn Birmingham yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn annog ein staff yn y swyddfa i roi cynnig ar ddweud ein henw newydd yn Gymraeg 'Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Nifer y rolau newydd yr asesir bod angen sgiliau Cymraeg yn hanfodol, Cymraeg yn fanteisiol neu ddim sgiliau Cymraeg

- Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf ym mis Medi 2018, dim ond 2 rôl yr ydym wedi'u hysbysebu o fewn Cyfarwyddiaeth Cymru. Un ar gyfer rôl Rheolwr Ariannu lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol a rôl Cyfieithydd lle roedd sgiliau Cymraeg rhugl yn hanfodol.
- Mae ein swyddfeydd yng Nghymru yn gymharol fach o gymharu â'n swyddfeydd eraill ledled y DU ac felly nid oes angen i ni recriwtio aelodau staff newydd yn aml.
- Roedd y rolau a hysbysebwyd yng Nghymru ar ôl mis Ionawr 2019 (ni hysbysebwyd unrhyw rolau rhwng Medi 2018 ac Ionawr 2019) ac o fewn yr un cyfnod yn Lloegr hysbysebwyd 67 o rolau.
- Mae gennym Strategaeth Sgiliau Cymraeg, y mae'r holl reolwyr, y tîm Adnoddau Dynol a'r tîm Cymraeg yn cyfeirio ati pryd bynnag y byddwn yn recriwtio i rôl newydd neu wag.

Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y mudiad o dan bob un o benawdau'r Safonau

- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o dan unrhyw un o benawdau Safonau a roddwyd inni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Manylion cyswllt

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â'n Safonau Cymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, e-bostiwch ni ar cymorthcymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk.